cofnod


Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service



# Cynllun Strategol
# Strategic Plan
# 2019–2024

*Usnea subfloridana*. © D. Hill.

# CYFLWYNIAD
# INTRODUCTION




Ar ôl ymgynghori â staff a chyfarwyddwyr Cofnod, mae'n bleser cyflwyno ein cynllun strategol pum mlynedd.

Ein nod yw cefnogi ac ysbrydoli pobl i gofnodi bywyd gwyllt. Rydyn ni hefyd eisiau sicrhau bod yr wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu'n ddefnyddiol, yn hawdd cael gafael arni ac yn rhan hanfodol o'r sylfaen o dystiolaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru.

Ers dechrau ar raddfa fechan yn 2005, mae Cofnod wedi gweithio drwy ei gynllun datblygu a'i gynlluniau busnes dilynol. Hwn yw ein cynllun strategol cyntaf, sydd wedi'i ddatblygu fel ymateb i'n hyder cynyddol yng nghynaliadwyedd ein busnes.

Mae'r cynllun hwn yn darparu cyfeiriad clir, gyda rhai blaenoriaethau allweddol ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn defnyddio'r rhain i roi cyfeiriad i'n gwaith ac i fesur ein cyflawniadau. Hefyd i gasglu adborth gan staff, cofnodwyr a defnyddwyr data, gan helpu i ymgorffori ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Dyma ein Blaenoriaethau Strategol:
- Cefnogaeth
- Systemau
- Safonau
- Olyniaeth

Following consultation with Cofnod's staff and directors, I am pleased to introduce our five year strategic plan.

Our aim is to support and inspire people to record wildlife. We also want to make the information we collate useful, easy to access and an essential part of the environmental evidence base for Wales.

Starting from small beginnings in 2005, Cofnod has worked through its development plan and subsequent business plans. This is our first strategic plan, developed as a response to our growing confidence in the sustainability of our business.

This plan provides a clear direction, with some key priorities for the future. We will use these to direct our work and measure our achievements. Also to gather feedback from staff, recorders and data users, helping to embed our vision and our priorities in all aspects of our work.

Our Strategic Priorities are:
- Support
- Systems
- Standards
- Succession





Roy Tapping
*Rheolwr/Manager*

## CYNNWYS


2. Cyflwyniad
3. Ein Gweledigaeth
4. Ein Gwerthoedd
5. Ein Blaenoriaethau
7. Ein Dyfodol

## CONTENTS

2. Introduction
3. Our Vision
4. Our Values
5. Our Priorities
7. Our Future



*Mellinus arvensis*. © David Hill.




# EIN GWELEDIGAETH
# OUR VISION

**“Gweledigaeth Cofnod yw hwyluso casglu, cadw’n ddiogel a defnyddio data bywyd gwyllt o ansawdd uchel a hefyd cefnogi ac ysbrydoli pobl i gofnodi bywyd gwyllt”**

**“Cofnod’s vision is to facilitate the collation, secure storage and use of high quality wildlife data, whilst supporting and inspiring people to record wildlife”**




# EIN GWERTHOEDD
# OUR VALUES


### Fel staff a chyfarwyddwyr rydyn ni’n rhannu ac yn hybu’r un gwerthoedd:

Didwylledd o ran enw da
Dibynadwyedd gwasanaeth
Gwerth gorau i ddefnyddwyr
Parch at eraill
Budd i fywyd gwyllt
Ansawdd gwasanaeth


### As staff and directors we share and promote the same values:

Reputational integrity
Reliability of service
Best value for users
Respect for others
Benefiting wildlife
Quality of service

# EIN BLAENORIAETHAU
# OUR PRORITIES




## Bydd blaenoriaethau strategol Cofnod yn ystod y pum mlynedd nesaf yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol




## Cofnod's strategic priorities over the next five years will be centred on four key areas

## Blaenoriaeth Strategol 1
## Strategic Priority 1

### *Cefnogaeth*
Byddwn yn parhau i gefnogi Cofnodwyr Bywyd Gwyllt, gan roi cyfleoedd iddynt ehangu eu gweithgareddau. Byddwn yn gwella hygyrchedd data, yn enwedig hygyrchedd cyfresi data anodd eu cyrraedd, ac yn datblygu ffyrdd newydd arloesol o'u defnyddio. Gyda'ch help chi, ein targed yw bod â 5 miliwn o gofnodion!

### *Support*
We will continue to support Wildlife Recorders, giving them opportunities to expand their activities. We will improve data accessibility, especially to hard to reach datasets, and develop innovative new ways of using data. With your help our target is to hold 5 million records!


*Lacanobia oleracea*. © David Hill.

## Blaenoriaeth Strategol 2
## Strategic Priority 2


*Bufo bufo*. © David Hill.

### *Systemau*
Byddwn yn ehangu Orca, ein system Gweinyddu'r Ganolfan Cofnodion Ar-lein, gan gynyddu ein gallu i gael mynediad at ddata a'u rheoli a'u rhannu. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu a chefnogi'r defnydd o Orca gan bob Canolfannau Cofnodion Amgylchedd Lleol arall ledled data'r DU.

### *Systems*
We will roll out Orca, our new Online Records Centre Administration system, increasing our ability to access, manage and share data. We will also continue to develop and support the use of Orca by other Local Environmental Records Centres across the UK.


## Blaenoriaeth Strategol 3
## Strategic Priority 3

### *Safonau*
Byddwn yn bodloni'r gyfres o safonau sy'n ofynnol i gyflawni Achrediad y Gymdeithas o Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol (ALERC). Bydd y safonau hyn yn cael eu cynnal a'u datblygu er mwyn parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar gyfer cleientiaid a rhanddeiliaid.

### *Standards*
We will meet the set of standards required to achieve Association of Local Environmental Records Centres (ALERC) Accreditation. These standards will be maintained and developed to continue to provide a high quality service for clients and stakeholders.


Rockpool. © David Hill.


## Blaenoriaeth Strategol 4
## Strategic Priority 4




### *Olyniaeth*
Byddwn yn annog olyniaeth ar ein Bwrdd o Gyfarwyddwyr, gan ddiweddaru ein strategaeth a sicrhau ei bod yn parhau'n ddeinamig, gan sicrhau persbectif ffres, a chynnal cysondeb a phrofiad hefyd.

### *Succession*
We will encourage succession to our Board of Directors, keeping our strategy up to date and dynamic, bringing in fresh perspectives, whilst maintaining continuity and experience.

# EIN DYFODOL




Yn ystod y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ceisio cryfhau ein sefyllfa fel darparwr gwasanaeth blaengar yn y sector. I wneud hyn, rydym wedi datgan ein blaenoriaethau a thrwy ganolbwyntio ar y rhain, byddwn yn gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth.

Mae **cefnogaeth** i gofnodwyr yn allweddol i'n llwyddiant; datblygu adnoddau a helpu gydag amrywiaeth eang o weithgareddau cofnodi. Rydym yn ceisio annog sgiliau newydd a datblygu'r rhai presennol gan ddefnyddio ein **cynllun grantiau bychain, digwyddiadau hyfforddi** a **gweithdai**. Byddwn yn parhau i ddarparu lle diogel i amrywiaeth eang o ddata, wrth i ni anelu at ein targed o 5 miliwn o gofnodion.

Datblygu systemau yw un o'n cryfderau allweddol ni. Byddwn yn ehangu **Orca**, ein system fwyaf cynhwysfawr hyd yma, er budd ein cleientiaid, ein staff a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol eraill sy'n dymuno ei mabwysiadu.


Mae safonau uchel yn bwysig i ni, gan sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gwblhau'n broffesiynol ac yn ddiduedd. Bydd cael **Achrediad ALERC** i'r rhain yn rhoi hyder i ni ein bod yn gweithredu oddi mewn i ganllawiau arfer gorau ein sector.

Bydd cael yr wybodaeth ddiweddaraf am dechnoleg, yn ogystal â bod yn agored i syniadau a datrysiadau newydd, yn gofyn am ddiweddaru ein **gwybodaeth a'n sgiliau** yn gyson. Bydd gan ein Bwrdd o Gyfarwyddwyr sgiliau a phrofiad priodol, gan ddod â phobl newydd i mewn yn ôl yr angen. Byddwn yn cefnogi datblygiad a hyfforddiant y staff wrth i ni gydnabod eu pwysigrwydd i'n cyflawniadau hyd yma ac i'n llwyddiant yn y dyfodol.

Fel sefydliad annibynnol, gallwn barhau'n hyblyg a ffres, sy'n hynod ddefnyddiol mewn marchnad gyda newidiadau technegol a deddfwriaethol posib. Bydd sicrhau cydbwysedd rhwng galw, staff a diogelwch data a thechnolegol yn allweddol i'n llwyddiant ni.

Mae ein dyfodol yn dibynnu ar gefnogaeth llawer o unigolion a sefydliadau sy'n rhoi data i ni neu sy'n defnyddio ein gwasanaeth. Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth safonol a chyfeillgar sy'n gweld gwerth yng nghyfraniad pobl eraill.

# OUR FUTURE




Over the next five years, we will aim to strengthen our position as a sector leading service provider. To do this, we have identified our priorities, and by concentrating on these we will work towards delivering our vision.

**Support** for recorders is key to our success; developing tools and helping with a wide variety of recording activities. We aim to encourage new skills and develop existing ones using our **small grant scheme**, **training events** and **workshops**. We will continue to provide a secure place for a wide range of data, as we head towards our target of 5 million records.

Systems development is one of our key strengths.  We will roll  out **Orca**, our most comprehensive system to date, to benefit our clients, staff and other Local Environmental Records Centres who wish to adopt it.

High standards are important to us, ensuring our work is carried out professionally and impartially. Having these acknowledged by **ALERC Accreditation**, will give us confidence that we are operating within our sector's best practice guidelines.

Keeping up to date with technology, as well as being open to new ideas and solutions will require constantly updating our **knowledge and skills**. Our Board of Directors will have appropriate skills and experience, bringing in new people as required. We will support staff development and training, as we recognise their importance to our achievements to date and our future success.

As an independent organisation, we can remain nimble and flexible, highly useful attributes in a market with potential technical and legislation changes. Balancing demand, staffing, technological and data security will be key to our success.

Our future depends upon the support of many individuals and originations which supply us with data or utilise our services. We will continue to provide a friendly, high quality service which values the contribution of others.


*Utricularia minor*. © David Hill.

# Gwneud i ddata bywyd gwyllt gyfrif
## Making wildlife data count

cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service